

YSGOL DOLBADARN

Medi 2il 2016

Annwyl Rieni

Croeso yn ôl i bawb ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y dosbarth newydd.

Dyma ychydig o newidiadau staffio eleni- croeso cynnes iawn iddynt hwythau hefyd.

Dosbarth Meithrin- Miss Anest Bryn Jones

Blwyddyn 3- Miss Ceri Davies (dros dro)

Clwb Brecwast(Derbyn-B6)- cychwyn am 7.55a.m y bore a gofynnir yn garedig i rieni dywys plant y Cyfnod Sylfaen i fyny at y drws os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau diogelwch. Dim ceir rhieni i fyny yr allt ar unrhyw adeg.

Prydlondeb: Mae'r ysgol yn cychwyn am 8.45a.m y bore a dylai pob plentyn fod yn y dosbarth erbyn hynny (bydd plant yn cael mynd ar y buarth o 8.35 ymlaen). **Bydd rhaid i blant sy'n cyrraedd yn hwyr gofrestru yn y swyddfa** a bydd y rhieni yn cael eu hysbysu drwy lythyr.

Presenoldeb: Gofynnir i chwi gysylltu os yw eich plentyn yn absennol drwy ffonio neu yrru ebost i'r ysgol helenrichards@gwynedd.sch.uk (01286 870 711) rhwng 8.15 a 8.45 o'r gloch yn y bore.

Siop Ffrwythau (Adran Iau) 30c y dydd neu £1.50 yr wythnos (arian mewn amlen wedi ei labelu).

Plant Cyfnod Sylfaen : bydd angen labelu a thorri ffrwyth ar gyfer y plant.

Llefrith: 10 c y dydd i'r Adran Iau – talu fesul hanner tymor.

Cinio Ysgol £2.30 y dydd– arian ar ddydd Llun mewn amlen gydag enw + dosbarth y plentyn arno os gwelwch yn dda. (Siec cinio yn daladwy i 'Cyngor Gwynedd'). Gallwch roi yr amlenni arian i'ch plentyn i'w roi i'r athro dobarth yn y bore- peidiwch â gadael arian yn y swyddfa os gwelwch yn dda. Does dim mynediad i rieni i'r swyddfa cyn 8.45 a.m.

Lloches: Mae lloches llyfr ar gael o'r ysgol am £4- mae rhain ar gyfer llyfrau darllen, gwaith cartref a llythyrau i fynd adref. Yr ydym yn annog pob plentyn i brynu lloches llyfr.

Addysg Gorfforol.

Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5+6
Dydd Mercher	Dydd Gwener	Dydd Iau	Dydd Gwener Dydd Mercher (Tennis) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.	Dydd Mawrth Dydd Mercher (Chwaraeon) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.	Dydd Llun Dydd Mercher (Nofio) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.

Mae'n hanfodol gwisgo Crys T a siorts ar gyfer gwersi os gwelwch yn dda (dim legins).

COFIWCH LABELU HOLL EIDDO A DILLAD EICH PLANT YN GLIR.

Rhai dyddiadau i'w nodi yn y dyddiadur.

Bingo Hydref 14eg Gwesty Dolbadarn – Rhieni a Chyfeillion yr ysgol

DIOGELWCH: Gofynnwn yn garedig i rieni sicrhau diogelwch holl blant yr ysgol drwy beidio gyrru ceir ar dir yr ysgol na pharcio ar y llinellau melyn ar waelod yr allt os gwelwch yn dda. Diolch o galon am eich cydweithrediad

.Dymunaf y gorau i'ch plentyn yn ystod y Tymor ac edrychaf ymlaen i gyfarfod rhieni newydd yr ysgol.

Bethan Wyn Jones (Pennaeth Mewn Gofal)